



Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

HEB FOD MEWN ADDYSG, CYFLOGAETH
NA HYFFORDDIANT

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data
Cyffredinol a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Lisa Richards

Swyddog Diogeli Data

Sam Bishop/Maria Litchfield

Swyddogion Datgelu Data a Chofnodion

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
data.protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000

1. GWYBODAETH BWYSIG

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu ynghylch y ffordd yr ydym yn dal ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol inni dynnu'ch sylw at y wybodaeth sydd yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw'r hysbysiad hwn yn rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Mae'n bosib y byddwn yn diweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg. Os gwnawn hynny, byddwn yn sicrhau bod copi cyfoes ohono ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad hwn ynghyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd a'n hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys rhagor o fanylion ynghylch ein prosesau data a gallwch gael mynediad ato trwy ein gwefan. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth ynghylch sut rydym yn defnyddio eich data personol yn y Gwasanaeth Ieuenctid a'r tîm Cydlynu Ymgysylltiad a Chynnydd (CYCh).

2. PWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful yw'r rheolwr data ac felly rydym yn gyfrifol am y data personol rydym yn eu storio. Mae'r Cyngor yn gyfansoddiad o wahanol adrannau, gellir dod o hyd i wybodaeth amdanynt ar ein [gwefan](#). Pan rydym yn sôn am yr Adran, rydym yn cyfeirio at y tîm Cydlynu Ymgysylltiad a Chynnydd (CYCh) sy'n gyfrifol am brosesu'ch data ar gyfer y gwasanaethau a amlinellir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i bob person sy'n cysylltu â'r Tîm Cydlynu Ymgysylltiad a Chynnydd (CYCh).

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogeli Data. Mae modd cysylltu â'r Swyddog drwy ddefnyddio'r manylion ar frig yr hysbysiad hwn.

3. Y MATH O WYBODAETH BERSONOL A DDEFNYDDIR

Byddwn efallai'n casglu, defnyddio, storio a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi fel a ganlyn:

- Disgrifwyr personol sy'n cynnwys eich enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, dyddiad geni
- Rhifau Adnabod, yn cynnwys eich rhif yswiriant gwladol, rhif cyflogres, rhif SWGCC
- Data addysgol megis eich cymwysterau, canlyniadau arholiadau, hanes addysg, presenoldeb ar gyrsiau hyfforddiant
- Gwybodaeth gyflogaeth, megis teitl eich swydd, hanes cyflogaeth, gall hwn hefyd gynnwys, o bosib, os ydych chi'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog

Efallai byddwn hefyd ddefnyddio a storio data demograffig sy'n darparu cyd-destun i'ch data personol, megis:

- Data ar eich ffordd o fyw, bydd y data hwn yn cynnwys eich statws priodasol, eich nodweddion, eich cymeriad cyffredinol, eich ymddangosiad cyffredinol, eich statws economaidd a chymdeithasol, eich barn bersonol, anghenion dietegol penodol
- Data sy'n gysylltiedig â'ch bywyd teuluol megis eich perthnasau, eich diddordebau ayyb

Efallai byddwn hefyd yn prosesu data mwy sensitif megis:

- Gwybodaeth droseddol yn cynnwys manylion arestladau, dedfrydau blaenorol, cyhuddiadau neu faddeuebau, gwybodaeth am garchar, gwybodaeth am gyfnodau prawf, gallwn hefyd gasglu gwybodaeth o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Gwybodaeth o'r Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch os ydych yn blentyn mewn gofal, yn oedolyn sy'n agored i niwed, os ydych yn ofalwr maeth neu os ydych yn gofalu am aelod o'ch teulu, gwybodaeth am eich cynllun gofal a gwybodaeth am anghenion addysgol arbennig ayyb.

Mae yno categorïau arbennig o ddata personol sy'n fwy sensitif ac sy'n galw am gael eu diogelu ar lefel uwch. Rydym yn casglu, yn storio ac yn defnyddio'r wybodaeth bersonol ganlynol amdanoch chi, sy'n perthyn i categorïau arbennig:

- Gwybodaeth am eich hil neu'ch ethnigrwydd,
- Credoau crefyddol neu athronyddol
- Iechyd yn cynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddyliol
- Gwybodaeth am fywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol

4. Y MODD Y MAE'CH GWYBODAETH BERSONOL YN CAEL EI CHASGLU

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch chi trwy atgyfeiriadau i'n gwasanaethau o'ch ysgol neu goleg, os oes ganddynt reswm i feddwl eich bod chi mewn peryg o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'n bosib y bydd achlysuron pan fydd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Adran Diogelwch y Gymuned, Cymunedau am Waith a rhaglenni a gwasanaethau ieuenctid eraill yn gofyn i ni gysylltu â chi os ydynt yn meddwl y byddech yn elwa o'n gwasanaethau. Mae'n bosib y bydd rhaglen y Cyngor, Teuluoedd yn y Gyntaf, yn eich atgyfeirio i'n gwasanaeth er mwyn eich atal rhag disgyn allan o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Trosglwyddir y wybodaeth a dderbyniwn i'n system electronig o'r enw CAPITA One, sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel dull o adnabod yn gynnar. Mae mynediad i'r system hwn yn gyfyngedig, staff awdurdodedig yn unig sy'n gallu gweld, diweddarau neu waredu ar eich data.

Dim ond er mwyn darparu'r gwasanaeth sydd ei hangen arnoch y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol. Y bwriad yw sicrhau ein bod yn gallu eich gosod yn ddiogel o fewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant. Byddwn yn darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch yn ystod eich cyfnod gyda'r Gwasanaeth. Byddwn yn sicrhau eich bod yn derbyn y wybodaeth berthnasol ynghylch sut y gallwn eich cefnogi yn ystod y cyfnod cofrestri.

O bryd i'w gilydd, mae'n bosib y byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol ychwanegol amdanoch oddi wrth sefydliadau eraill y tu allan i'r Cyngor, all gynnwys Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, darparwyr hyfforddiant allanol ac asiantaethau eraill sy'n eich adnabod yn barod.

Byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol ychwanegol amdanoch yn ystod ein gweithgarwch a'n busnes Cyngor a thrwy'r gwasanaethau byddwn yn eu darparu ar eich cyfer yn ystod eich cyfnod o fod mewn cyswllt â ni. Am ragor o wybodaeth ynghylch sut defnyddir eich gwybodaeth bersonol gan wasanaethau eraill ewch at y dudalen hysbysiadau preifatrwydd ar ein [gwefan](#).

5. SAIL GYFREITHIOL DROS BROSESU

Dim ond mewn achosion lle mae deddfwriaethau data'n caniatáu i ni wneud hynny, y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol. Bydd yr achlysuron hynny yn y cynnwys y darpariaethau a amlinellir yn [Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu](#) a, lle bo hynny'n berthnasol, yn y [Ddeddf Diogeli Data 2018](#). Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn yr amgylchiadau canlynol:

Cymal 6(1)(c) sy'n ymwneud â goblygiadau cyfreithiol o fewn y deddfau canlynol
Deddf Dysgu a Medrau 2000
Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Cymru) 2002
Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cymal 6(1)(e) sy'n ymwneud â'n gorchwyl gyhoeddus yn unol â'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid 2013.

6. RHANNI'CH DATA PERSONOL

Efallai y byddwn yn rhannu'ch data drwy'r Adran er mwyn darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch, byddwn hefyd yn rhannu'ch data'n fewnol gydag adrannau eraill o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn y gwasanaeth orau gennym. Efallai y byddwn yn rhannu'ch data personol gyda sefydliadau allanol a fydd efallai'n cynnwys:

Gwasanaeth Ieuencid
Y Tîm Cymorth Ieuencid
Rheolwr Inspire
Rheolwr Teuluoedd yn Gyntaf
Rheolwr Adfywio'r Gymuned (C4w/C4w+)
Rheolwr Diogelwch y Gymuned
Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Pennaeth Addysg
Ysgol Uwchradd Afon Taf
Ysgol Gatholig Blessed Carlo Acutis
Ysgol Uwchradd Cyfarthfa
Ysgol Uwchradd Penydre
Ysgol Arbennig Greenfields
Tŷ Dysgu Homfray (Uned Gyfeirio Disgyblion)
Gyrfa Cymru
Y Coleg Merthyr Tudful
Consortium Hyfforddi Tudful
Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Cwm Taf
Equity Foundation Ltd
Llamau
Coleg Y Cymoedd
Sefydliad Clwb Pêl-Droed Dinas Caerdydd (Cardiff City FC Foundation)
Whitehead Ross
Coleg Gwent
Coleg Hyfforddiant ar gyfer Rhagddarpariaeth y Lluoedd Arfog

Mae'r Cyngor wedi arwyddo Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru gyda'r sefydliadau a restrir uchod. Gallwch ddod o hyd iddo iddo [fan hyn](#).

Efallai y bydd achlysuron pan fydd yn rhaid i ni rannu'ch gwybodaeth personol gyda Llywodraeth Cymru am resymau ystadegol neu ddadansoddol. Defnyddir y wybodaeth personol sy'n cael ei chadw gennym, gan Lywodraeth Cymru er mwyn iddynt reoleiddio'r ffordd rydym yn cyflawni'n cyfrifoldebau cyhoeddus.

Ni fyddwn yn trosglwyddo'ch data i unrhyw wlad y tu allan i'r [Ardal Economaidd Ewropeaidd](#). Os gwnawn ni, byddwn yn rhoi gwybod ichi cyn gynted â phosib. At hynny, gallwch ddisgwyl graddau cyffelyb o ddiogelwch ar gyfer eich gwybodaeth personol.

7. AM BA HYD YR YDYM YN CADW EICH GWYBODAETH PERSONOL

Dim ond am gyn hired ag sy'n ofynnol i gyflawni dibenion casglu'r wybodaeth y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth personol, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd. Byddwn yn cadw'r wybodaeth personol a gasglwyd yn unol â'r proesi a amlinellwyd yn yr hysbysiad hwn am 25 mlynedd ers dyddiad eich geni neu am ddeg mlynedd wedi cau'r ffeil. Ar ôl y dyddiad hwn, caiff eich gwybodaeth personol ei ddifodi'n ddiogel.

Mae'r manylion ynghylch cyfnodau cadw'r gwahanol agweddau ar eich gwybodaeth personol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk).

8. Y MODD YR YDYM YN CADW EICH GWYBODAETH PERSONOL YN DDIOGEL

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn atal eich gwybodaeth personol rhag cael ei cholli'n ddamweiniol, rhag cael ei defnyddio neu'i chyrchu mewn ffordd heb ei hawdurdodi, a rhag cael ei newid neu'i datgelu. Rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth personol i'r staff sydd angen gwybod y manylion yn unig. Dim ond yn unol â'n cyfarwyddiadau ni y byddant yn prosesu'ch gwybodaeth personol ac mae ganddynt ddyletswydd cyfrinachedd. Rydym wedi sefydlu gweithdrefnau i ddelio ag unrhyw achos posibl o dorri mesurau diogelu data a byddwn yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol am hyn pan fo raid i ni wneud hynny o dan y gyfraith. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynghylch y modd rydym yn cadw'ch gwybodaeth personol yn ddiogel drwy gysylltu gyda'n Swyddog Diogelwch information.security@merthyr.gov.uk.

9. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mewn amgylchiadau penodol, mae gennych hawliau o dan gyfreithiau diogeli data mewn perthynas a'ch gwybodaeth personol. Amlinellir y rhain yn y GDPR ac maent yn cynnwys:

- Yr hawl i gywiro – mae gennych yr hawl i ofyn bod y wybodaeth sydd gennym amdanoch, yn cael ei chywiro.
- Yr hawl i gyfyngu prosesu – gallwch ofyn i ni atal rhag brosesu'ch data personol, fodd bynnag gallai hwn achosi i ni oedi neu'n hatal yn gyfangwbl rhag darparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio gyda'ch cais ond efallai y bydd gofyn i ni gadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn i ni ufyddhau i'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i beidio â bod yn destun i benderfynu na phroffilio awtomatig.
- Yr hawl i fynediad – mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopiâu o'ch gwybodaeth personol. Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth.

Mae'n bwysig bod y wybodaeth bersonol sydd gennym ar eich cyfer yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch wybodaeth bersonol er mwyn i ni ddiweddarau'n cofnodion. Os hoffech arolygu, gadarnhau, neu gael mynediad i'ch wybodaeth bersonol cysylltwch â'r Swyddog Diogeli Data'n ysgrifenedig gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd ar frig y dudalen hon.

10. MANYLION PELLACH

Mae gennych yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i'n Swyddog Diogeli Data, mae'r manylion cyswllt ar frig y dudalen, neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylio'r Deyrnas Unedig ynghylch materion diogeli data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd CF10 2HH
E-bost: wales@ico.org.uk
Ffôn: 0330 414 6421

Os ydych yn chwilio am ragor o wybodaeth ynghylch sut rydym yn prosesu'ch data personol yn cynnwys diogeli data, cadw data a hawliau unigol gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yn llawn. Gallwch hefyd gael wybodaeth yn uniongyrchol o wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), www.ico.org.uk.